# Ond beth yw hanes y plant erbyn hyn? – Rhan 2

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn cynnig nifer o syniadau ymarferol ar sut i fynd ati i gynllunio ar gyfer y cyfnod newydd hwn. Does gan dros 95% o blant Cymru bellach ddim cysylltiad â'r ffydd Gristnogol, ac mae effaith pandemig Covid-19 ar waith plant ac ieuenctid mewn ysgolion Sul, clybiau plant a gwasanaethau teulu wedi dwysáu'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy fyth.

## Meithrin a chadw cysylltiad â'r plant a'u teuluoedd

Tystiolaeth sawl teulu yw nad ydyn nhw wedi clywed dim gan eu heglwys / eu hysgol Sul ers dros flwyddyn. Ers cyhoeddi na fyddai ysgol Sul dros y cyfnod clo, fe aeth popeth yn ddistaw. Er bod cyfarfod efo grwpiau o blant wyneb yn wyneb yn anodd, yn enwedig os ydynt o ysgolion gwahanol, dydi hynny ddim yn rheswm dros anghofio amdanynt.

Wrth i dymor a blwyddyn yr ysgol Sul ddirwyn i ben ddiwedd y mis, beth am gysylltu â phob teulu sy'n rhan o fywyd yr eglwys gyda rhodd o lyfr neu gomic? Mae digon o lyfrau posau a sticeri deniadol ar gael am brisiau rhesymol iawn. Byddai hyd yn oed yn bosib cyflwyno Beibl lliw i bob teulu fel rhodd, gan annog rhieni i ddarllen a thrafod y cynnwys gyda'u plant. Mae gan Gyngor yr Ysgolion Sul lu o adnoddau – o 50c i £10 y pen. Paratowyd pecyn 'Ffydd yn y Cartref' hefyd; mae'n dod mewn amlen yn barod i'w bostio, ac ynddo ceir cylchgrawn lliwgar, sticeri, cardiau post a marc llyfr. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.ysgolsul.com.

Mae criw Saint y Gymuned, a chriw Cymuned Bach a Chyngor yr Ysgolion Sul wedi bod yn paratoi pecynnau gwersi a syniadau wythnosol, sy'n hawdd iawn i'w e-bostio'n wythnosol i rieni. Eto, ceir hyd i'r rhain i gyd ar wefan ysgolsul.com. Mae'n bosib gosod heriau i'r plant i gyflawni tasgau, gan eu hannog i yrru lluniau atoch y gellid eu rhannu ar dudalen Facebook yr ofalaeth – her i wneud gwaith crefft neu her i gyflawni tasg. Os oes 'na blant Blwyddyn 6 yn rhan o'ch eglwys, beth am gyflwyno copi o *Y Cam Nesa* iddynt? Adnodd arbennig gan Scripture Union ydi hwn, i'w paratoi ar gyfer dechrau yn yr ysgol uwchradd. Gall fod yn gyfle hefyd i gyflwyno copi o *beibl.net i bobl ifanc* iddynt ar ddechrau'r bennod newydd hon yn eu hanes.



## Trefnu digwyddiad pen tymor

Erbyn hyn mae'n haws trefnu digwyddiad yn yr awyr agored i griw o hyd at 30 o bobl. Beth am fynd ati i drefnu barbeciw ar y traeth, picnic teuluol mewn parc, campau mewn cae, gemau mewn gardd? Bydd yn gyfle i'r plant a'r rhieni ailgysylltu a chael cyfle i drafod a sgwrsio. Mae'n debyg na fydd tripiau ysgol Sul yn ymarferol eleni, felly beth am drefnu rhywbeth lleol? Ymweliad ag atyniad lleol neu bryd o fwyd mewn canolfan lle ceir atyniadau chwarae? Ond cofiwch ddilyn y canllawiau diweddaraf a chydymffurfio â gofynion y gyfraith.

## Dechrau cynllunio ar gyfer mis Medi

Er mwyn gallu ailgydio, mae cael cynllun pwrpasol yn allweddol. Beth am alw pawb sy'n rhan o'r ddarpariaeth – yn weinidogion ac arweinwyr, rhieni a phlant – at ei gilydd dros Zoom i drafod pa fath o ddarpariaeth, pa mor rheolaidd a pha gyfrwng? Efallai fod model o ysgol Sul wyneb yn wyneb bob yn ail â chyfarfod rhithiol, teuluol yn un ffordd ymlaen? Sut mae modd cau'r gagendor rhwng bywyd yr eglwys a'r ysgol Sul? Sut mae creu cynulleidfa o bobl o bob oed sy'n dysgu am Iesu ac yn cyfarfod i'w addoli yn ogystal?

## Buddsoddi mewn technoleg

Erbyn hyn mae llu o adnoddau ar gael ar y we: cannoedd o ffilmiau Beiblaidd yn Gymraeg a Saesneg, caneuon Cristnogol i'w canu gyda'r geiriau ar y sgrin, sgyrsiau ieuenctid, cyflwyniadau crefft, a llawer iawn mwy. Byddai cael cyfrifiadur yn y festri a chysylltiad â'r we yn fantais fawr i'r ysgol Sul erbyn hyn. Mae modd cael cyfrifiadur sgrin 27" am oddeutu £400 ar y we erbyn hyn, a chysylltiad â'r we am flwyddyn am £300. Onid yw hyn yn fuddsoddiad gwerth chweil i gefnogi gwaith yr ysgol Sul, heb sôn am ei ddefnydd fel adnodd ym mywyd yr eglwys? Bellach, dydi taflen liwio a chwilair ddim yn mynd i gadw sylw'r plant am amser hir, a rhaid gwneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi gwaith yr ysgol Sul.

## Hyfforddi arweinwyr

Beth yw pwrpas cynnal ysgol Sul neu glwb plant Cristnogol? Ai adloniant, ai ffordd o ddiddori'r plant am awr bob wythnos, ai cyflwyno storïau Beiblaidd amrywiol, ynteu oes mwy iddi na hynny? A ydym yn deall pwysigrwydd y rôl o greu disgyblion a dilynwyr i Iesu Grist fel ein galwad a'n blaenoriaeth? A ydym yn gweld pwysigrwydd cyflwyno cwricwlwm Beiblaidd cynhwysfawr sy'n dangos llaw Duw a gweinidogaeth Iesu ar fywydau pob un ohonom? A ydym yn llwyddo i fodelu yn ein bywydau ni yr hyn rydym yn ei rannu â'n plant? Mae cyrsiau fel *Dal d'afal* yn ein helpu i weld o'r newydd bwysigrwydd y gwaith rydym wedi ein galw i fod yn rhan ohono, a'r angen i wneud hynny ag egni ac argyhoeddiad.

Oes 'na ddyfodol i waith plant yng Nghymru? Oes, heb unrhyw amheuaeth! Os nad ydym yn credu hynny, bydd yr eglwys wedi diflannu o'n tir o fewn y 25 mlynedd nesaf. Nid ein gwaith ni yw hyn, ond gwaith Duw. Dyna pam mae'r gwaith yn sicr o lwyddo yn y pen draw. Er ein methiannau ni, mae Duw ar waith, ac yn sicr o lwyddo.

Ond mae yna alwad o'r newydd arnom ninnau, yn weinidogion ac arweinwyr, yn rhieni, teidiau a neiniau, rhieni bedydd, a ffrindiau Iesu, i weld a sylweddoli o'r newydd yr angen enfawr i wneud hyn yn flaenoriaeth o fewn ein gweinidogaeth. Mae'n bosib nad yw'r plant wedi cael chwarae teg gennym dros y 15 mis a aeth heibio – gadewch i ni eu gwneud yn flaenoriaeth am y 15 mis nesaf. Ymrown o'r newydd i adeiladu eglwysi y mae lle ynddynt i bobl o bob oed, a phob oed yn dysgu ac yn addoli gyda'i gilydd.